Estyn

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Maesincla

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2026

Mae’r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae perthnasoedd cadarnhaol rhwng staff a disgyblion yn nodwedd gref o'r ysgol ac yn cyfrannu'n effeithiol at greu cymuned gynhwysol, ofalgar a hapus. Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth glir ac ysbrydoledig, ac mae staff a phartneriaid ehangach yn cydweithio'n llwyddiannus i wireddu gweledigaeth yr ysgol.

Mae staff yn cynllunio cwricwlwm eang a phwrpasol sy'n ymateb yn dda i anghenion y disgyblion. Mae athrawon yn darparu gweithgareddau diddorol sy'n ennyn a chynnal diddordebau disgyblion ac yn datblygu eu medrau mewn ystod eang o brofiadau dysgu. Mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai o aelwydydd incwm isel, yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn. Maent yn datblygu i fod yn siaradwyr Cymraeg naturiol a hyderus ac yn cymhwyso eu medrau ysgrifennu, mathemategol a digidol yn llwyddiannus mewn ystod o gyd-destunau. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau darllen y disgyblion yn effeithiol, er hyn, nid yw'r ysgol yn meithrin diwylliant digon cadarn o ddarllen er pleser.

Mae staff yn hyrwyddo lles ac ymddygiad cadarnhaol yn fedrus, ac mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd a gânt i gyfrannu at fywyd a gwaith yr ysgol. Un o gryfderau amlwg yr ysgol yw'r ddarpariaeth faeth ar gyfer disgyblion ag anghenion emosiynol, cymdeithasol ac addysgol cymhleth, sy'n cefnogi eu lles a'u hymgysylltiad â'u dysgu yn effeithiol.

Mae arweinwyr yn meithrin partneriaethau cryf â rhieni a'r gymuned sy'n cyfoethogi'r ddarpariaeth a chefnogi lles a dysgu'r disgyblion yn effeithiol. Maent yn defnyddio ystod fuddiol o weithdrefnau hunanwerthuso i lywio gwelliant ac yn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol gwerthfawr sy'n cyfrannu'n fuddiol at gryfhau ansawdd yr addysgu. Mae arweinwyr yn rhoi blaenoriaeth glir i hyrwyddo presenoldeb. Er hyn, mae presenoldeb y lleiafrif o ddisgyblion yn parhau i fod yn rhy isel.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud 2 argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1. Gwella presenoldeb disgyblion

A2. Cryfhau'r diwylliant o darllen er pleser

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn. (Ysgol Gynradd Maesincla - Estyn)

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 01/09/2026